Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, 28ain Ionawr, 2009 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer y Cyng Edward Thomas, y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Ros Bellamy, y Cyng Julia Jones, y Cyng Chris Parish, y Cyng Ieuan Gwyn,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Y Cyng Fran Murphy, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Hugh Towns, y Cyng Roy Davies.

Materion yr Heddlu : Eglurodd PC Vernon Thomas fod pedair trosedd wedi digwydd yn ystod y mis hyd yn hyn. Llwyddwyd dod o hyd i'r troseddwyr mewn tri o'r achosion, sef 1 achos o feddiannu cyffuriau a reolir, 1 achos o siopladrad ac 1 tramgwydd yn erbyn y drefn gyhoeddus. Roedd yr Heddlu yn hyderus y byddent yn dod o hyd i'r troseddwr yn yr achos o ddifrod troseddol i gerbyd yn y dyddiau nesaf . Roedd Sarjant Lee Williams wedi ei benodi i Landeilo a byddai'n mynychu'r cyfarfod nesaf.

Cof 233 / Ionawr /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir .
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y byddai'r pafiliwn tenis newydd yn cael ei adeiladu ym mis Mai. Byddai tîm Rhag-gynllunio CSC yn cynnal seminar ar ddiwedd Chwefror ynglŷn â'r CDU newydd. Roedd cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal ynglŷn â'r adrefnu arfaethedig o ysgolion uwchradd yn ardal Dinefwr.
Gofynnodd y Cyng Jones am gynrychiolwyr i fynychu cyfarfod HOWLTA, cymdeithas rheilffordd Canolbarth Cymru, ddydd Sadwrn 31ain Ionawr yn Llanymddyfri. Byddai'r Cyng Julia Jones a'r Cyng Chris Parish yn cynrychioli'r Cyngor.
Cof 234 / Ionawr/ 09 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 10fed Rhagfyr, 2008 yn gofnod cywir gyda'r newidiadau canlynol :-
Cof 204 / Rhagfyr/08 - newid Bryn yn Bro Hywel.
Cof 206 / Rhagfyr/08 - newid Bryn yn Bro Hywel.
Cof 209 / Rhagfyr/08 (1) newid D.Cledwyn Hughes yn D. Cledwyn Moses Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (newid y gair ailosod yn adnewyddu plac treftadaeth glas.
Cof 214 / Rhagfyr/08 (2) – rhodd i Fand Pres Rhydaman newid £100 yn £150
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Ionawr 14eg, 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn gyda'r newid canlynol:-
Cof 221 / Ionawr/09 – ychwanegu'r gair goleuo ar ôl y gair Troedffordd.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb

o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 14eg Ionawr, 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn gyda'r newidiadau canlynol :-
Cof 225 / Ionawr / 09 – dylai'r bil i'w dalu i Fenter Bro Dinefwr (cyfieithiadau) fod yn £1,031.52 nid £1,003.52.
Ychwanegu ym miliau i'w talu Morgan & Morgan (ffacs/peiriant ateb swyddfa) £115.36
Cynigwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 235 / Ionawr / 09 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Parth. Cof 223 / Ionawr / 09 Dywedodd y Dirprwy Faer na fyddai'n gallu mynychu cynhadledd Cymru Gynhaliol.

Cof 236 / Ionawr / 09 Gohebiaeth sydd angen ei ateb

1. Shelter Cymru – Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gwahodd cynrychiolydd i annerch y Cyngor Llawn nesaf ar eu prosiect Cymunedau Gwledig.
2. CSC - Gerwyn Thomas – Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon ffotograffau a gwybodaeth ymlaen ynghylch cais y Faner Werdd.
3. Nell Hillier, Afon Tywi'r Oesoedd parth Parc Penlan. Byddai'r Clerc yn anfon llythyr ymlaen i Swyddog Parciau CSC.
4. Arwyn Evans parth. Cyfarfod ar y cyd ag Adam Price a Rhodri Glyn Thomas. Byddai hwn yn cael ei gynnal ddydd Gwener, Chwefror 20fed am 7.30pm
5. Sefydliad Aren Cymru – taith gerdded noddedig ar 29ain Mawrth. Nodwyd.
6. ICO - parth Deddf rhyddid gwybodaeth. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gofyn y Cyng Fran Murphy ei ddarllen ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Cof 237 / Ionawr / 09 Gohebiaeth er Gwybodaeth.

1. Llythyr o ddiolch gan yr Arglwydd Dynevor am y cydymdeimlad a fynegwyd ar farwolaeth ei dad.
2. Chris Reading parth. Lwfansau i Aelodau'r Cynulliad yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nodwyd.
3. B.A.Davies parth. Cau'r Gymdeithas Gyrwyr Anabl. Nodwyd.
4. Taflen newyddion Un Llais Cymru. Nodwyd.
5. Gohebiaeth Cymdeithas y Dalar. Byddai'r Clerc yn rhoi'r cais am rodd ar agenda nesaf y Pwyllgor Cyllid.
6. Adroddiad Panel Dyfarnu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nodwyd.
7. Arddangosfa Konica Minolta. Nodwyd.

Cof 238 / Ionawr / 09 Materion Ariannol.

1 Cyfrifon i'w Talu

WCVA (Gweinyddiaeth Ionawr 2009)	£ 34.79
WCVA (Cyflogau Ionawr 2009)	£ 149.64
Des Davies (inc i'r argraffydd ac arian i'r ffôn)	£ 31.73
Des Davies (Clo botwm gwthio i'r Swyddfa)	£ 68.48
PINC (cyflwyno blodau i bensiynwr lleol ar ben-blwydd yn 100.)	£ 20.00

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill
   a) Gwiriadau Chwarterol.
      Adroddodd y Cyng Ros Bellamy fod 7 o wahanol ddaliadau wedi eu gwirio.
      Gwiriwyd y sieciau canlynol
      Siec 1328 - dylid ei chlustnodi i Gyfieithiadau ac nid tân gwyllt.
      Siec 1339 - ni ddylid ei thalu nes canfod i bwy y mae'n daladwy
      Siec 1362 - Prisio Neuadd y Sir i'w chlustnodi i Yswiriannau.
      Byddai'r Swyddog Cyllid yn mynd ar drywydd dwy siec heb eu cyflwyno.

Cof 239 / Ionawr / 09 Cludiant a Phriffyrdd
Adroddwyd bod y golau stryd tu allan i 5, Heol Cilgant yn ddiffygiol. Byddai hyn yn cael ei adrodd i CSC.

Cof 240 / Ionawr / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad terfynol ar oleuadau Nadolig 2008. Awgrymodd fod y cyfnod o oleuo am 44 diwrnod yn ormodol o ran costau a niwed i'r amgylchedd. Cynigodd air o rybudd ynghylch addurniadau blwyddyn nesaf oherwydd rheoliadau atodol yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Wrth dderbyn yr adroddiad a diolch i Mr Davies, awgrymodd y Maer y byddai angen i'r Is-grŵp ystyried yr argymhellion.
Cynigodd y Cyng Ros Bellamy y dylid anfon llythyron o ddiolch i'r bobl leol a gafodd oleuadau Nadolig ar eu tai. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 241 / Ionawr / 09 Adroddiad y Maer.
Rhoddodd y Cyng Edward Thomas adroddiad ar yr achlysuron a fynychwyd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Byddai'n trefnu cyfarfod â'r Cyng Julia Jones ynghylch yr adolygiad o'r prosiect Llandeilo yn ei Blodau.

Cof 242 / Ionawr / 09 Polisi'r Cyngor ar gyfer Cyfrif Treuliau'r Maer

Cynigodd y Cyng Ieuan Gwyn fod y ddogfen adroddiad drafft a gynhyrchwyd gan y gweithgor yn cael ei derbyn. Eiliodd y Cyng Ros Bellamy y cynnig. Roedd pawb o blaid.

Cof 243 / Ionawr / 09 Adroddiadau Eraill
Rhoddodd y Cyng Chris Parish adroddiad ar gynhadledd y Bartneriaeth Chwarae a fynychodd yn Arberth ar ran y Cyngor. Nodwyd.

Cof 244 / Ionawr / 09 I drafod y Cynnig i gynnal Carnifal Tref

Gwnaeth y Dirprwy Faer gylchredeg dogfen yn manylu cynnig i gynnal carnifal Tref. Yn dilyn trafodaeth, cynigodd y Cyng Colin Jenkins na ddylai'r Cyngor gynnal carnifal ar sail y ddogfen a gyflwynwyd. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Derbyniwyd cynnig y Cyng Jenkins.
Cynigodd y Cyng Ros Bellamy y dylid sefydlu gweithgor i drafod trefnu digwyddiadau haf llai o faint ym Mharc Penlan. Eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid. Byddai'r gweithgor yn cynnwys y Maer, y Dirprwy Faer, Cyng Julia Jones, Cyng Chris Parish a Chlerc y Dref. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth, Chwefror 3ydd am 6.30pm.

Cof 245 / Ionawr /09 Nid oedd unrhyw eitemau eraill o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm